
Pecyn Cais

# Yswiriant Cynnwys y Cartref


CARDIFF
CAERDYDD



dillad


eitemau trydanol



dodrefn


tân


fandaliaeth


carpedi


lladrad


dŵr

## Nid yw Cyngor Caerdydd yn yswirio eich dodrefn, eich eiddo na’ch addurniadau yn erbyn lladrad, tân, fandaliaeth na phibellau sydd wedi byrstio.

## Mae angen i chi drefnu yswiriant cartref eich hun naill ai dan gynllun arbennig drwy Aviva neu drwy wneud eich trefniadau eich hun.

Mae’r cynllun hwn yn agored i bob tenant Cyngor Caerdydd. * Ni allwn warantu bod y cynllun yn sicrhau’r yswiriant rhataf sydd ar gael, na’i fod yn rhoi’r yswiriant ehangaf. Dylech geisio dyfynbrisiau eraill a dewis yr yswiriant sy’n addas i’ch anghenion.

Gall Cyngor Caerdydd a Thistle Insurance Services Ltd gynnig cyfle i denantiaid yswirio cynnwys eu cartrefi.


Diben y polisi yswiriant cynnwys y cartref hwn yw ateb gofynion ac anghenion y rheiny sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n dymuno yswirio eu heiddo.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi os nad ydych yn siŵr a yw'r polisi yswiriant hwn yn iawn i chi, cysylltwch â Chyngor Caerdydd, y cyfeirir ato hefyd fel y Gweinyddwr.



### Talu’r premiwm

Mae cost yr yswiriant yn daladwy’n wythnosol. Gellir ei dalu’n fisol drwy archeb sefydlog, mewn unrhyw gangen y Swyddfa Bost® gan ddefnyddio cerdyn sweipio, neu â cherdyn debyd drwy ffonio’r Swyddog Yswirio Cynnwys yng Nghaerdydd ar 029 2053 7382.



### Yswirio cynnwys eich cartref (gweler y ddogfen wybodaeth am gynnyrch yswiriant)

Wrth brynu’r yswiriant hwn bydd nwyddau a chynnwys eich aelwyd yn cael eu hyswirio pan fyddant yn eich cartref yn erbyn digwyddiadau fel tân, lladrad neu lifogydd. Mae’r yswiriant hefyd yn berthnasol i gynnwys eich rhewgell ac i allweddi wedi’u dwyn. Mae yswiriant hefyd am atebolrwydd personol. Nid yw difrod damweiniol nac yswiriant i ffwrdd o’r cartref yn cael eu cynnwys fel elfennau safonol oni bai am yr hyn y manylir arno yn y ddogfen wybodaeth am gynnyrch yswiriant sydd wedi’i hamgáu. Gallwch ddewis prynu opsiwn difrod damweiniol llawn, ond am gost ychwanegol. Nid oes unrhyw yswiriant am draul na methiant mecanyddol.

*yn amodol ar gyflwyno ffurflen gais foddhaol.



## Yr hyn y mae eich yswiriant yn ei gynnwys

Darllenwch y ddogfen wybodaeth am gynnyrch yswiriant sydd wedi'i hamgáu, sy'n nodi'r prif amgylchiadau y mae eich yswiriant yn eu cynnwys (e.e. tân, lladrad, difrod dwr). Mae esiampl o lyfryn polisi ar gael ar gais.




## Yswiriant "Newydd yn Lle'r Hen"

Caiff holl gynnwys eich cartref ei yswirio gan y polisi ar sail "newydd yn lle'r hen", ac eithrio lleiniau a dillad, a fydd yn cael eu hamnewid am eu cost bresennol, gan dynnu swm i ffwrdd am draul. Pan fyddwch yn cyfrifo cost eich yswiriant, bydd angen i chi gyfrifo faint fydd y gost o amnewid yr holl gynnwys. **Wrth danbrisio gwerth eich cynnwys, mae'n bosibl na fydd modd i chi gael gwerth cyfan eich hawliad os bydd angen i chi hawlio.**

## Symiau isaf arbennig a yswirir

Mae £6,000 - £35,000 ar gael i bob tenant.



## Dulliau Talu

Os dewiswch dalu drwy (yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol). Mae hyn yn golygu bod eich yswiriant yn ei le cyn belled â'ch bod yn parhau i dalu eich premiymau.



## Sut i wneud cais

Cwblhewch y ffurflen sydd wedi'i hamgáu yn y llyfryn hwn. Sicrhewch eich bod yn ateb pob cwestiwn ac yn llofnodi'r datganiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am lenwi eich ffurflen, ffoniwch y Cyngor ar 029 2053 7382. Ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen, rhowch hi i'ch Hyb lleol neu ei phostio at Swyddog Yswiriant Cynnwys Cyngor Caerdydd, Tîm Rheoli Rhent, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Neu os ydych yn cwblhau'r ffurflen yn electronig, cwblhewch hi'n llawn a chlicio'r botwm 'CYFLWYNO' ar dudalen y datganiad, neu cadwch y ddogfen a'i hanfon dros e-bost i: TîmRheoliRhent@caerdydd.gov.uk

## Cadw i fyny â'r taliadau

- I wneud yn siŵr eich bod wedi'ch yswirio ar bob adeg, rhaid i chi dalu erbyn y dyddiadau priodol.
- Gall Cyngor Caerdydd ganslo'r polisi os bydd gennych ôl-daliadau ar eich premiwm.
- Mae'n bosibl na fydd modd i chi hawlio os nad yw'ch taliadau'n gyfredol.




## Dyddiad dechrau

Bydd yr yswiriant yn dechrau pan fydd Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i chi eich bod wedi cael eich derbyn i'r cynllun. Ar ddydd Llun bydd yr yswiriant yn dechrau bob tro. Caiff llythyr croeso, Geiriad Polisi, Dogfen Wybodaeth am Gynnyrch Yswiriant ac Atodlen Yswiriant yn manylu ar y swm a yswirir, y premiwm a'r hyn a yswirir eu hanfon atoch cyn gynted â phosibl.

Cewch wybod yn ysgrifenedig os, am unrhyw reswm, nad ydych wedi cael eich derbyn i'r cynllun.

## Polisi cynnwys tenantiaid Cyngor Caerdydd

- Drwy ddewis polisi cynnwys y Cyngor, byddwn yn ymdrechu i roi telerau eich polisi i chi gan gynnwys eich Atodlen Yswiriant cyn Pen-blwydd y Cynllun.
- Pen-blwydd y Cynllun fydd y pwynt pan fyddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau i delerau eich polisi, bydd hefyd yn nodi pris a gwybodaeth am ganslo.

## Nodiadau Arbennig

- Os bydd eich cartref yn debygol o fod yn wag (e.e. os byddwch yn yr ysbyty, ar wyliau estynedig) am gyfnod o 60 diwrnod yn olynol yn ystod cyfnod yr yswiriant, bydd rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddog Yswiriant Cynnwys. Ffoniwch 029 2053 7382.
- Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod swm yr yswiriant yn ddigon i yswirio holl eitemau eich aelwyd a'ch eiddo personol.
- Mae Cyngor Caerdydd yn cadw'r hawl i ystyried amlder eich taliadau rhent wrth brosesu eich cais.

**Mae Cyngor Caerdydd yn annog pob tenant i drefnu yswiriant cartref, naill ai dan gynllun arbennig neu drwy wneud ei drefniadau ei hun.**

**CWBLHEWCH Y FFURFLEN SYDD WEDI'I HAMGAU OS HOFFECH WNEUD CAIS**

## Hunanbrisio cynnwys eich aelwyd

Mae’r rhan fwyaf o bobl yn gweld bod cynnwys eu haelwyd yn werth mwy na’r disgwyl. Defnyddiwch y dudalen hon i’ch helpu i brisio cynnwys eich eiddo, ond yn gyntaf darllenwch yr adran ynglŷn ag yswiriant ‘Newydd yn Lle’r Hen’.

Cyfrifwch y ddwy golofn a thalgrynnu’r cyfanswm hyd at y £1,000 agosaf, ac yna rhowch y ffigur hwn ar y ffurflen gais. (Cadwch y ffurflen er mwyn gallu cyfeirio ati yn y dyfodol.)

| YSTAFELL/EITEMAU | CYFANSWM GWERTH | YSTAFELL/EITEMAU | CYFANSWM GWERTH |
|---|---|---|---|
| **Eitemau yn ystafell fyw 1** e.e. teledu, radio, peiriant fideos, | | **Eitemau yn ystafell wely 1** e.e. gwely, dodrefn | |
| Hi-Fi, teledu lloeren, cyfrifiadur, celfi, carpedi, byrddau, | | yr ystafell wely, carpedi, llenni, goleuadau, cloc, | |
| dodrefn arall, CDs, fideos, goleuadau, | | dillad gwely, gemwaith, addurniadau, gemau, teganau, | |
| llyfrau, addurniadau, llenni ac ati | | tyweli, cyfrifiadur, ac ati | |
| | | | |
| | | **Eitemau yn ystafell wely 2** e.e. gwely, dodrefn | |
| **Eitemau yn ystafell fyw 2** e.e. bwrdd cinio, | | yr ystafell wely, carpedi, llenni, goleuadau, cloc, | |
| cadeiriau, seld, dodrefn arall, carpedi, | | dillad gwely, gemwaith, addurniadau, gemau, teganau, | |
| llenni, goleuadau, addurniadau ac ati. | | tyweli, cyfrifiadur, ac ati | |
| | | | |
| | | **Eitemau yn ystafell wely 3** e.e. gwely, dodrefn | |
| | | yr ystafell wely, carpedi, llenni, goleuadau, cloc, | |
| | | dillad gwely, gemwaith, addurniadau, gemau, teganau, | |
| **Eitemau yn y gegin** e.e. ffwrn, peiriant golchi | | tyweli, cyfrifiadur, ac ati | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dillad, oergell, | | | |
| rhewgell, sosbenni, crochenwaith, bwrdd, cadeiriau, | | | |
| gorchudd llawr, goleuadau , addurniadau, | | **Eitemau mewn ystafelloedd eraill a thai allan** | |
| microdon, tostiwr, tegell, eitemau trydanol eraill | | e.e. sugnwr llwch offer, peiriant torri glaswellt, | |
| ac ati. | | offer garddio ac ati | |
| | | | |
| | £ | | £ |

# Cost Yswiriant

| Y SWM A YSWIRIR | YSWIRIANT SAFONOL | YSWIRIANT SAFONOL GYDA DIFROD DAMWEINIOL ESTYNEDIG |
|---|---|---|
| £6,000 | £0.56 | £0.67 |
| £7,000 | £0.65 | £0.77 |
| £8,000 | £0.74 | £0.89 |
| £9,000 | £0.83 | £1.00 |
| £10,000 | £0.92 | £1.11 |
| £11,000 | £1.01 | £1.23 |
| £12,000 | £1.11 | £1.33 |
| £13,000 | £1.20 | £1.44 |
| £14,000 | £1.29 | £1.56 |

| Y SWM A YSWIRIR | YSWIRIANT SAFONOL | YSWIRIANT SAFONOL GYDA DIFROD DAMWEINIOL ESTYNEDIG |
|---|---|---|
| £21,000 | £1.94 | £2.33 |
| £22,000 | £2.03 | £2.44 |
| £23,000 | £2.12 | £2.55 |
| £24,000 | £2.21 | £2.67 |
| £25,000 | £2.31 | £2.77 |
| £26,000 | £2.40 | £2.88 |
| £27,000 | £2.49 | £3.00 |
| £28,000 | £2.58 | £3.11 |
| £29,000 | £2.68 | £3.21 |
| £30,000 | £2.77 | £3.33 |
| £31,000 | £2.86 | £3.44 |
| £32,000 | £2.96 | £3.55 |
| £33,000 | £3.04 | £3.67 |
| £34,000 | £3.14 | £3.77 |
| £35,000 | £3.24 | £3.88 |

Mae'n bosibl y byddwch am ddefnyddio'r daflen hunanbrisio ar dudalen 4 i'ch helpu i gyfrifo faint o yswiriant fydd ei angen arnoch. Mae'r taliadau a ddangosir yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant ar y gyfradd gyfredol.

# DIOGELU DATA – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Gwybodaeth Bersonol**

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi er mwyn rhoi polisi i chi sy'n addas ar gyfer eich anghenion yswiriant. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro'r agweddau mwyaf pwysig ar sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, ond gallwch gael mwy o wybodaeth am y telerau rydym yn eu defnyddio a gweld ein polisi preifatrwydd yn llawn yn www.aviva.co.uk/privacypolicy neu gallwch wneud cais am gopi drwy ysgrifennu atom yn 'Aviva, Freepost, Mailing Exclusion Team, Unit 5, Wanlip Road Ind Est, Syston, Leicester LE7 1PD'.

Y rheolydd data sy'n gyfrifol am y wybodaeth bersonol hon yw Aviva Insurance Limited fel yswiriwr y cynnyrch. Mae rheolyddion eraill yn cynnwys y Gweinyddwr a Thistle Insurance Services sy'n gyfrifol am werthu a gweithredu'r cynnyrch, ac unrhyw yswirwyr, ailyswirwyr neu froceriaid perthnasol rydym yn eu defnyddio.

**Gwybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a sut rydym yn ei defnyddio**

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gesglir gennych ac o ffynonellau eraill:

- i ddarparu yswiriant i chi: bydd ei hangen arnom i benderfynu a allwn gynnig yswiriant i chi ac os felly, ar ba delerau, ac i weinyddu eich polisi, i ymdrin ag unrhyw hawliadau ac i reoli unrhyw broses adnewyddu.
- i gefnogi buddiannau dilys sydd gennym fel busnes. Bydd ei hangen arnom i:
- reoli trefniadau sydd gennym gyda'n hyswirwyr, ein hailyswirwyr a'n broceriaid rydym yn eu defnyddio, ac i ganfod ac atal twyll
- ein helpu i ddeall ein cwsmeriaid yn well ac i wella ein hymgysylltiad â chwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys proffilio a dadansoddeg cwsmeriaid sy'n ein galluogi i wneud rhagfynegiadau a rhagdybiaethau penodol am eich diddordebau, i wneud cydberthynas am ein cwsmeriaid i wella ein cynhyrchion ac i awgrymu cynhyrchion eraill a allai fod yn berthnasol neu o ddiddordeb i gwsmeriaid,
- bodloni unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol neu reoliadol: Bydd ei hangen arnom i fodloni gofynion cydymffurfio ein rheoleiddwyr (e.e. Awdurdod Ymddygiad Ariannol), i gydymffurfio â'r gyfraith ac i reoli hawliadau cyfreithiol, a
- chynnal gweithgareddau eraill er budd y cyhoedd: er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth bersonol i gynnal gwiriadau atal gwyngalchu arian.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol am bobl eraill hefyd, er enghraifft, aelodau o'ch teulu rydych yn dymuno eu hyswirio ar bolisi. **Os ydych yn rhoi gwybodaeth i ni am berson arall, rydym yn disgwyl i chi sicrhau ei fod yn gwybod eich bod yn gwneud hynny. Efallai y bydd yn ddefnyddiol dangos yr hysbysiad preifatrwydd hwn iddo.**

Bydd y wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu ac yn ei defnyddio'n cynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni, gwybodaeth ariannol a manylion eich cartref. Os bydd hawliad yn cael ei wneud, byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol am yr hawliad gennych hefyd ac unrhyw drydydd parti perthnasol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn am fanylion sy'n ymwneud ag iechyd neu unrhyw droseddau neu euogfarnau heb eu disbyddu sydd gennych chi neu unrhyw un arall dan eich polisi. Rydym yn cydnabod bod gwybodaeth am iechyd a throseddau neu euogfarnau yn wybodaeth sy'n arbennig o sensitif. Byddwn yn sicrhau ein bod ond yn defnyddio'r wybodaeth honno lle mae angen i ni at ein dibenion yswiriant (gan gynnwys asesu telerau eich contract

yswiriant, delio â newidiadau i'ch polisi a/neu ddelio â hawliadau).

Efallai y bydd adegau pan fydd angen caniatâd arnom i ddefnyddio gwybodaeth bersonol am reswm penodol. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi ar y pryd. Os byddwch yn caniatáu i ni ddefnyddio gwybodaeth bersonol, mae hawl gennych dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni – gweler y manylion "Cysylltu â ni" isod. Os tynnir caniatâd i ddefnyddio gwybodaeth yn ôl, ni fyddwn yn gallu parhau i brosesu'r wybodaeth y gwnaethoch ei rhoi i ni at y diben hwn/dibenion hyn. Ni fyddai hyn yn ein hatal rhag defnyddio gwybodaeth nad oes angen caniatâd arnom i'w defnyddio.

Wrth gwrs, nid oes rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth bersonol i ni, ond os nad ydych yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, mae'n bosibl na fydd modd i ni barhau â'ch cais nac unrhyw hawliad fyddech yn ei wneud.

Gallai peth o'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio yn rhan o'r cais hwn gael ei rhoi i ni gan drydydd parti. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chadw amdanoch chi a'ch cartref o fewn grŵp Aviva, gan gynnwys manylion o ddyfynbrisiau ac hawliadau blaenorol, gwybodaeth rydym yn ei chasglu o gofnodion sydd ar gael yn gyhoeddus, ein trydydd partïon dibynadwy a chronfeydd data'r diwydiant, gan gynnwys asiantaethau a chronfeydd data atal twyll.

**Proses benderfynu awtomataidd**

Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud penderfyniadau awtomataidd i benderfynu a allwn ddarparu yswiriant i chi ac ar ba delerau, i ddelio â hawliadau neu i gynnal gwiriadau twyll. Yn benodol, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio peiriant yswirio awtomataidd i ddarparu dyfynbrisiau ar-lein, gan ddefnyddio'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu.

**Sut rydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag eraill**

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol:

- â'r grŵp Aviva, ein hasiantau a thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i ni, y Gweinyddwr a Thistle Insurance Services ac yswirwyr eraill (naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng y rheiny sy'n gweithredu ar ran yr yswiriwr, fel aseswyr colledion neu ymchwilwyr) i'n helpu i weinyddu ein cynnyrch a'n gwasanaethau,
- â chyrff rheoliadol a chyrff gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys yr heddlu, e.e. os bydd angen i ni wneud hynny i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol neu reoliadol,
- â sefydliadau eraill gan gynnwys yswirwyr, cyrff cyhoeddus a'r heddlu (naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddefnyddio cronfeydd data a rennir) at ddibenion atal a chanfod twyll,
- ag ailyswirwyr sy'n darparu gwasanaethau ailyswirio i Aviva ac i'w gilydd mewn perthynas â risgiau wedi'u tanysgrifennu gan Aviva, ag yswirwyr sy'n yswirio Aviva dan ei bolisïau yswiriant grŵp ac â broceriaid sy'n trefnu ac yn rheoli trefniadau yswirio ac ailyswirio o'r fath. Byddant yn defnyddio eich data i benderfynu a ddylid darparu ailyswiriant i chi, i asesu a rheoli yswiriant o'r fath, i asesu unrhyw hawliadau ailyswiriant dan yswiriant o'r fath ac i ddelio â nhw, ac i fodloni dyletswyddau cyfreithiol. Byddant yn cadw eich data am y cyfnod angenrheidiol at y dibenion hyn ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt ei datgelu i gwmnïau eraill o fewn eu grŵp, eu hasiantau a darparwyr gwasanaeth trydydd parti, cyrff gorfodi'r gyfraith a chyrff rheoleiddiol.

Gallai rhai o'r sefydliadau rydym yn rhannu gwybodaeth â nhw fod y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AAE"). Byddwn bob tro'n cymryd camau i sicrhau bod unrhyw

wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo y tu allan i'r AEE yn cael ei rheoli'n ofalus i ddiogelu eich hawliau preifatrwydd. I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd neu cysylltwch â ni.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol**

Mae gennym bolisi cadw i sicrhau ein bod yn cadw gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n rhesymol y byddwn ei hangen yn unig, a hynny at y dibenion a eglurir yn yr hysbysiad hwn. Mae angen i ni gadw gwybodaeth am y

cyfnod angenrheidiol i weinyddu eich yswiriant ac i ddelio â hawliadau ac ymholiadau ynglŷn â’ch polisi. Mae’n bosibl y bydd angen i ni gadw gwybodaeth ar ôl i’n perthynas â chi ddod i ben hefyd, er enghraifft, i sicrhau bod gennym gofnod cywir rhag ofn bydd cwynion neu heriau’n codi, i gynnal gwiriadau atal twyll, neu lle bo angen i ni wneud hynny at ddibenion cyfreithiol, rheoliadol neu drethi.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawliau amrywiol mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hawl i ofyn am gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i unrhyw gamgymeriadau ar ein cofnodion gael eu cywiro, i ddileu neu gyfyngu ar gofnodion lle nad oes eu hangen mwyach, i wrthwynebu defnyddio gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar fuddiannau busnes cyfreithlon, gan gynnwys proffilio a marchnata, i ofyn i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd os bydd y penderfyniad yn effeithio’n gyfreithiol neu’n sylweddol arnoch a hawliau o ran cludadwyedd data. I gael mwy o fanylion mewn perthynas â'ch hawliau, gan gynnwys sut i'w harfer, darllenwch ein polisi preifatrwydd llawn neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion "Cysylltu â ni" isod.

**Cysylltu â ni**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol, neu os ydych am arfer eich hawliau a nodir uchod, cysylltwch â'n tîm Diogelu Data drwy naill ai anfon e-bost ato yn dataprt@aviva.com neu ysgrifennu at y Swyddog Diogelu Data, Lefel 5, Pitheavlis, Perth PH2 0NH’.

Os oes gennych gŵyn neu bryder ynghylch sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y lle cyntaf a byddwn yn ceisio datrys y mater cyn gynted â phosibl. Mae gennych hawl hefyd i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg.

**Atal a Chanfod Twyll**

Er mwyn atal a chanfod twyll gallwn ar unrhyw adeg:

- Rannu gwybodaeth amdanoch gyda sefydliadau eraill a chyrff cyhoeddus gan gynnwys yr Heddlu;
- Cynnal chwiliadau credyd a chwiliadau twyll ychwanegol;
- Gwirio a/neu ffeilio eich manylion gydag asiantaethau a chronfeydd data atal twyll, ac os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghywir i ni ac rydym yn amau twyll, byddwn yn cofnodi hyn i atal twyll a gwyngalchu arian.

Gallwn roi ar gais fanylion pellach yr asiantaethau a'r cronfeydd data rydym yn eu defnyddio neu'n cyfrannu atynt a sut y gellir defnyddio'r wybodaeth hon. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â ni yn:

‘Policy Investigation Unit, Aviva, Cruan Business Centre, Westerhill Business Park, 123 Westerhill Road, Bishopbriggs, Glasgow, G64 2QR’. Ffôn: 0345 300 0597. E-bost: PIUUKDI@AVIVA.COM

Gallwn ni a sefydliadau eraill hefyd chwilio'r asiantaethau a'r cronfeydd data hyn i:

- Ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch darparu a gweinyddu yswiriant, credyd a gwasanaethau cysylltiedig i chi ac aelodau o’ch aelwyd;
- Olrhain dyledwyr neu fuddiolwyr, adennill dyled, atal twyll a rheoli eich cyfrifon neu’ch polisïau yswiriant;

- Gwirio pwy ydych chi i atal gwyngalchu arian, oni bai eich bod yn rhoi prawf boddhaol arall o bwy ydych chi i ni;
- Gwirio manylion ymgeiswyr swyddi a gweithwyr.

**Hanes Hawliadau**

- Dan amodau eich polisi, rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw ddigwyddiadau yswiriant (fel tân, difrod dŵr, lladrad neu ddamwain) p'un a ydynt wedi arwain at hawliad ai peidio. Pan fyddwch yn dweud wrthym am ddigwyddiad, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth amdano i gronfa ddata.
- Gallwn chwilio'r cronfeydd data hyn pan wnewch gais am yswiriant, yn achos digwyddiad neu hawliad, neu ar adeg adnewyddu i ddilysu eich hanes hawliadau neu unrhyw berson neu eiddo arall sy'n debygol o fod yn rhan o'r polisi neu'r hawliad.

Dylech ddangos yr hysbysiadau hyn i unrhyw un sydd â buddiant yn yr yswiriant dan y polisi.

## OS OES CWYN GENNYCH

Gobeithio y byddwch yn hapus iawn â'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu. Fodd bynnag, os nad ydych yn hapus ag ef am unrhyw reswm, hoffem glywed gennych. Yn y lle cyntaf, ceisiwch ddatrys y gŵyn drwy gysylltu ag Uned Cynnwys Tenantiaid Aviva ar rif ffôn 0345 0308 733. Os ydych wedi cwyno wrthym ac nad ydym wedi gallu datrys eich cwyn, gallwch ei hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol. Nid yw dilyn y weithdrefn gwyno yn effeithio ar eich hawl i gymryd camau cyfreithiol.

## DEWIS CYFRAITH

Bydd cyfraith Cymru a Lloegr yn berthnasol i'r contract hwn oni bai:

1) Eich bod chi a'r Yswiriwr yn cytuno fel arall; neu
2) Ar ddyddiad y contract rydych yn byw yn (neu, yn achos busnes, mae'r swyddfa gofrestredig neu brif le busnes wedi'i leoli yn) Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ac os felly (yn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb) bydd cyfraith y wlad honno'n berthnasol.

## COSTAU A RECORDIO GALWADAU FFÔN

Mae galwadau i rifau 0800 o linellau tir a ffonau symudol y DU am ddim. Codir tâl am alwadau i rifau rhagddodiad 03 ar y cyfraddau galwadau cenedlaethol (gall y taliadau amrywio'n dibynnu ar eich darparwr rhwydwaith) ac fel arfer mae'r taliadau wedi'u eu cynnwys mewn cynlluniau munud cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol. Er mwyn eich diogelu chi a ninnau, gellir recordio a/neu fonitro galwadau ffôn.

# Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Yswiriant Cynnwys y Cartref i Denantiaid Cyngor Caerdydd

(Yn amodol ar delerau, eithriadau ac amodau'r polisi y gellir gweld enghraifft ohono ar gais).

- Darllenwch y datganiad ar y diwedd cyn i chi gwblhau'r ffurflen.
- Sicrhewch eich bod yn ateb pob cwestiwn mor gyflawn â phosibl.
- Dychwelwch y ffurflen gyfan, wedi'i chwblhau, i Gyngor Caerdydd. Swyddog Yswiriant Cynnwys. Tîm Rheoli Rhent, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.
- Neu os ydych yn cwblhau'r ffurflen yn electronig, defnyddiwch y botwm 'SUBMIT' dan y datganiad.

**Cadwch gopi o'r ffurflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall fyddwch yn ei hanfon gyda hi. Neu gallwch ofyn am gopi gan y cwmni yswiriant o fewn tri mis o gael yr yswiriant.**

Defnyddir y ffurflen hon i gyfrifo'r premiwm ar gyfer eich yswiriant ac i bennu a oes modd eich yswirio. Rhaid i chi gynnwys yr holl wybodaeth. Os nad ydych yn siŵr a ddylech gynnwys unrhyw ddarn o wybodaeth, dylech ei chynnwys.

**Os na fyddwch yn gwneud hynny, gellir gwrthod unrhyw hawliad a wnewch.**

**Eich Enw Llawn** (Mrs/Ms/Miss/Mr/arall)

______________________________________________

Dyddiad geni______________Eich Swydd (nodwch os ydych wedi ymddeol)

**Eich partner domestig neu gynigydd ar y cyd, Enw llawn** (Mr/Mrs/Ms/Miss/arall)

______________________________________________

Dyddiad geni______________ Ei Swydd (nodwch os yw wedi ymddeol)

A oes angen rhoi'r polisi hwn mewn enwau ar y cyd? ✓ ○ ✗ ○

Cyfeiriad ______________________________________________

______________________________________________

Cod Post ______________________________________________

Rhif ffôn ______________________________________________

A ydych chi'n un o Denantiaid y Cyngor? ✓ ○ ✗ ○

A oes angen yswiriant Difrod Damweiniol arnoch? ✓ ○ ✗ ○

Swm yr yswiriant sydd ei angen i'r £1,000 agosaf £ ______________________

Dull talu a ffefrir ______________________

Ble glywsoch chi am y cynllun? ______________________

Bydd yr yswiriant yn dechrau pan fydd Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i chi eich bod wedi cael eich derbyn i'r cynllun.
Byddwch yn cael llyfryn ac atodlen polisi a fydd yn cadarnhau swm yr yswiriant, y premiwm a'r dyddiad dechrau. Mae'n bwysig bod swm yr yswiriant a ddewiswyd (mewn rhif cyfan wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf) yn ddigon i dalu'r gost lawn o amnewid holl eiddo eich aelwyd a'ch eiddo personol.

**ATEBWCH BOB CWESTIWN ISOD. DIM OND AR ÔL I CHI ATEB Y CWESTIYNAU HYN Y GALLWN YSTYRIED EICH CAIS. DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU WRTH GWBLHAU'R FFURFLEN HON**

**I'W HATEB GAN YR YMGEISYDD** (ticiwch y blwch cywir i ateb y cwestiynau isod) Dim ond ar ôl i chi ateb POB UN o'r cwestiynau hyn yn llawn y gallwn ystyried eich cais.

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| **1.** A yw eich cartref yn annibynnol gyda'i ddrws ffrynt ei hun ar wahân y gellir ei gloi? | ○ | ○ |
| **2.** A yw eich eiddo'n gartref parhaol a feddiannir dim ond gennych chi ac aelodau o'ch teulu agos sydd fel arfer yn byw gyda chi? | ○ | ○ |
| **3.** A yw swm yr yswiriant rydych wedi'i ddewis yn ddigon i dalu am amnewid holl eiddo eich aelwyd a'ch eiddo personol? | ○ | ○ |

Os ydych wedi ateb '×' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch fwy o fanylion isod (defnyddiwch daflen ar wahân os oes angen mwy o le arnoch).

________________________________________

________________________________________

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| **4.** A yw eich tŷ'n cael ei adael wag neu heb unrhyw un yn gofalu amdano am fwy na 60 diwrnod yn rheolaidd? | ○ | ○ |
| **5.** A yw eich cartref yn cael ei ddefnyddio i redeg busnes? | ○ | ○ |
| **6.** A wrthodwyd yswiriant erioed, neu a yw yswiriwr wedi gosod telerau arbennig arnoch chi neu unrhyw un rydych yn byw gydag ef? | ○ | ○ |

Os ydych wedi ateb '✓' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch fwy o fanylion isod (defnyddiwch daflen ar wahân os oes angen mwy o le arnoch).

________________________________________

________________________________________

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| **7.** A oes unrhyw ddamweiniau wedi digwydd yn y pum mlynedd diwethaf a fyddai wedi eich arwain at wneud hawliad ar gyfer cynnwys yr aelwyd neu eiddo personol, p'un a'r oedd gennych yswiriant ar y pryd ai peidio? | ○ | ○ |

Os ydych wedi ateb '✓' i'r cwestiwn uchod, rhowch fwy o fanylion isod (defnyddiwch daflen ar wahân os oes angen mwy o le arnoch).

Dyddiad/dyddiadau'r digwyddiad/digwyddiadau ____________________

Beth achosodd y golled (lladrad, difrod dŵr ac ati.)? ____________________

Gwerth y nwyddau a gollwyd neu a ddifrodwyd ____________________

A oedd gennych yswiriant ar y pryd? ____________________

Os felly, faint oedd setliad yr hawliad gan eich yswirwyr? ____________________

**8.** Nodwch a ydych wedi dioddef lladrad yn y pum mlynedd diwethaf

Sut gafwyd mynediad i'ch eiddo? ____________________

Pa offer diogelwch ychwanegol sydd wedi'i osod ers y digwyddiad? (cloeon ychwanegol, larymau ac ati.)

________________________________________

| | ✓ | × |
|---|---|---|
| **9.** A ydych chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi erioed wedi'ch cael yn euog neu wedi cael eich cyhuddo o unrhyw drosedd, oni bai am droseddau gyrru, neu'n rhan o ymchwiliad yr heddlu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd? | ○ | ○ |

Os ydych wedi ateb '✓' i'r cwestiwn uchod, rhowch y manylion canlynol:

Dyddiad yr euogfarn neu'r cyhuddiad ____________________

Natur y drosedd ____________________

Cosb a gafwyd (swm y ddirwy, hyd y ddedfryd etc.) ________________________________________________

Eich oed ar y pryd ______________________________

## Hysbysiad Pwysig - Gwybodaeth a newidiadau y mae angen i ni wybod amdanynt

Rhaid i chi gymryd gofal rhesymol i ateb y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn yn gyflawn ac yn gywir wrth i chi brynu, newid ac adnewyddu eich polisi. Darllenwch unrhyw ragdybiaethau yn ofalus a chadarnhau a ydynt yn berthnasol i'ch amgylchiadau

Dywedwch wrth eich yswiriwr os oes unrhyw ran o'r wybodaeth a roddwyd gennych yn newid ar ôl i chi brynu eich polisi, neu os oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a nodir ar eich atodlen. Rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr yswiriwr am y newidiadau canlynol;

- unrhyw newid i'r bobl neu'r bobl i'w hyswirio
- unrhyw newid neu ychwanegiad i'r cynnwys neu'r eiddo sydd i'w hyswirio sy'n arwain at yr angen i gynyddu swm yr yswiriant neu'r terfynau a ddangosir ar eich atodlen polisi
- os bydd eich eiddo'n cael ei fenthyg, ei osod, ei is-osod, neu ei ddefnyddio at ddibenion busnes (heblaw am waith clercaidd achlysurol)
- os bydd eich eiddo'n wag am unrhyw gyfnod parhaus dros 60 diwrnod, neu
- os yw unrhyw aelod o'ch aelwyd neu unrhyw berson sydd i'w yswirio ar y polisi hwn yn cael ei gyhuddo o drosedd neu ei gael euog o drosedd (heblaw am droseddau gyrru).

Os nad yw'r wybodaeth a roddwyd gennych yn gyflawn nac yn gywir:-

- gallwn ganslo eich polisi a gwrthod talu unrhyw hawliad, neu
- efallai na fyddwn yn talu unrhyw hawliad yn llawn, neu
- gallwn adolygu'r premiwm, neu
- gallai fod effaith ar raddau'r yswiriant

Mae'r Yswirir yn argymell eich bod yn cadw cofnod (gan gynnwys copïau o lythyrau) o'r holl wybodaeth a roddwyd i'r yswirir er gwybodaeth yn y dyfodol. Rhoddir copi o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau ar gais o fewn tri mis ar ôl ei chwblhau.

**DARLLENWCH Y DATGANIAD ISOD YN OFALUS CYN EI LOFNODI**

## Datganiad

- Rwyf i/Rydyn ni'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy/ein gwybodaeth.
- Os derbynnir y risg rwyf i/rydyn ni'n addo talu'r premiwm pan ofynnir i fi/ni wneud hynny.
- Rwyf i/Rydyn ni'n deall y gall fy/ein gwybodaeth hefyd gael ei datgelu i gyrff rheoliadol at ddibenion monitro a/neu orfodi cydymffurfiaeth yr yswiriwr ag unrhyw reolau/codau rheoliadol.
- Rwyf i/Rydyn ni wedi darllen y wybodaeth dros y dudalen dan y pennawd "Gwybodaeth Bwysig".

Rhaid i chi sicrhau nad yw swm eich yswiriant yn llai na'r gost lawn o amnewid y nwyddau; gall methu â gwneud hynny annilysu eich polisi neu leihau setliadau hawliadau.

| Llofnod yr ymgeisydd | Dyddiad |
|---|---|
| Llofnod y cynigydd ar y cyd | Dyddiad |

Dylai ymgeiswyr ar y cyd lofnodi os oes angen y polisi mewn enwau ar y cyd.

## Nodyn arbennig

Os bydd eich cartref yn debygol o fod yn wag (e.e. os byddwch yn yr ysbyty, ar wyliau estynedig) am gyfnod o 60 diwrnod yn olynol yn ystod cyfnod yr yswiriant, bydd rhaid i chi roi gwybod i Gyngor Caerdydd.

## Os ydych yn cwblhau cais electronig:

Lawrlwythwch neu agorwch y ffeil PDF y gellir ei golygu yn uniongyrchol yn Adobe Reader i gwb

**Cyflwyno**

## Sylwer:

os ydych yn cyflwyno'r ffurflen hon drwy flwch post rhyngrwyd fel Hotmail neu Yahoo, bydd angen i chi gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar eich bwrdd gwaith, agor eich blwch post ac anfon y ffurflen i TîmRheoliRhent@caerdydd.gov.uk. Cofiwch gynnwys 'ffurflen gais' yn y maes pwnc.

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| Dyddiad Derbyn: | Premiwm: |
| Rhif y Polisi: | Dyddiad Dechrau: |

## Statws Rheoliadol Aviva

Rydym wedi'n hawdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'n rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

a’r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Rydym wedi ein cofrestru fel: Aviva Insurance Limited a chyfeirnod ein cwmni yw 202153.
Gallwch wirio'r wybodaeth hon a chael mwy o wybodaeth am sut mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn eich amddiffyn drwy fynd i'w wefan www.fca.org.uk neu drwy gysylltu ag ef ar 0800 111 6768.

# Yswiriant y Cartref

## Dogfen Wybodaeth am Gynnyrch Yswiriant

**Cwmni: Aviva Insurance Limited** **Cynnyrch: Cynnwys y Cartref - Tenantiaid**

AVIVA

Cofrestrwyd yn yr Alban, rhif 2116. Swyddfa gofrestredig: Pitheavlis, Perth PH2 0NH. Awdurdodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a’r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Cyfeirnod y Cwmni yw 202153.

Dyma grynodeb o’n polisi yswiriant. Cewch hyd i’r holl delerau ac amodau, ynghyd â gwybodaeth bwysig arall, yn nogfennau’r polisi.

### Beth yw’r math hwn o yswiriant?

Mae yswiriant cynnwys y cartref i denantiaid yn eich amddiffyn rhag colled neu ddifrod i’ch cynnwys. Mae’n cynnwys pethau fel tân, llifogydd, stormydd, lladrad, dŵr yn dianc ac ymsuddiant – fel y disgrifir yn ein llyfryn polisi.

### Beth sydd wedi’i yswirio?

Chi fydd yn pennu’r swm y byddwn yn ei dalu i brynu nwyddau newydd.

**Cynnwys**

- ✓ Colled neu ddifrod i gynnwys yn y cartref a’i garej, ei adeiladau allanol neu ei erddi
- ✓ Gosod cloeon newydd ar ddrysau allanol os caiff yr allweddi eu colli neu eu dwyn
- ✓ Difrod damweiniol i offer sain, fideo neu gyfrifiadurol yn eich cartref
- ✓ Atebolrwydd personol – os ydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am ddifrod i drydydd parti neu ddifrod i’w eiddo
- ✓ Atebolrwydd tenantiaid – Os ydych yn atebol yn gyfreithiol am ddifrodi eiddo eich landlord (hyd at 20% o swm yr yswiriant)
- ✓ Difrod i fwyd yn y rhewgell a achoswyd gan newid mewn tymheredd (hyd at swm yr yswiriant)
- ✓ Ni fydd rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd dros ben (y swm fydd angen i chi talu ar unrhyw hawliad)
- ✓ Bwyd y rhewgell hyd at swm yr yswiriant.

**Yswiriant Dewisol**

- Mae estyniad difrod damweiniol i gynnwys yn yswirio’r rhan fwyaf o gynnwys.

### Beth nad yw’n cael ei yswirio?

- ✗ Difrod yn sgil traul, methiant trydanol a mecanyddol, neu ddirywiad graddol
- ✗ Pydredd gwlyb neu sych
- ✗ Difrod stormydd i ffensys, gatiau a chloddiau
- ✗ Colledion a difrod penodol (e.e. yn sgil pibelli’n byrstio) i adeiladau neu gynnwys pan nad yw eich cartref wedi’i feddiannu am fwy na nifer y dyddiau a ddangosir yn ein llyfryn Polisi.
- ✗ Colledion neu ddifrod penodol (e.e. lladrad neu ddifrod maleisus) a achoswyd gennych chi, gwesteion sy’n talu neu denantiaid
- ✗ Y gost o brynu eitemau newydd yn lle rhai heb eu difrodi sy’n rhan o bâr, set neu swît
- ✗ Cerbydau modur, awyrennau, cychod, byrddau, carafanau neu drelars.

**Yswiriant dewisol – yr hyn nad yw’n cael ei gynnwys**

- Difrod Damweiniol - Difrod a achoswyd gan anifeiliaid anwes yn cnoi, yn crafu neu’n baeddu.

### A oes unrhyw gyfyngiadau ar yr yswiriant?

! Gallai cyfyngiadau penodol fod yn berthnasol i’ch polisi. Er enghraifft:

- cyfyngiadau ariannol ar gyfer yswiriannau penodol, a/neu
- gymalau sy’n eithrio mathau penodol o golled neu ddifrod

! Nid ydym yn yswirio eiddo sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion busnes neu broffesiynol (ac eithrio offer swyddfa gartref penodol dan yswiriant cynnwys) oni bai ein bod wedi cytuno i wneud hynny.

**Yswiriant dewisol - cyfyngiadau**

- Nid yw rhai o’n dewisiadau difrod damweiniol yn yswirio difrod pan fydd eich cartref yn cael ei fenthyg, ei osod (neu ei is-osod) neu’n cael ei ddefnyddio gan westeion sy’n talu.

### Ble mae’r yswiriant yn weithredol?

✓ Yn y cartref rydych yn ei yswirio – cyn belled â’i fod o fewn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw

✓ I ffwrdd o’r cartref (o fewn Ynysoedd Prydain) – os byddwch yn prynu yswiriant cynnwys, bydd yswiriant cyfyngedig yn weithredol ar gyfer eitemau allan o’r cartref dros dro.

### Beth yw fy rhwymedigaethau?

- Rhaid i chi gymryd gofal rhesymol i ateb y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn yn gyflawn ac yn gywir - p’un a ydych yn prynu, yn newid neu’n adnewyddu eich polisi
- Rhowch wybod i weinyddwr eich cynllun ar unwaith os yw’r wybodaeth a nodwyd yn y ffurflen gais neu’ch atodlen yn newid
- Rhaid i chi lynu wrth telerau, darpariaethau, amodau a chymalau’r polisi hwn a’u cyflawni – gallai methu â gwneud hynny effeithio ar eich yswiriant
- Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiad a allai arwain at hawliad cyn gynted â phosibl
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd angen i chi ei rhoi i ni er mwyn datrys unrhyw hawliad. I weld y manylion yn llawn, gweler yr adran “Amodau Cyffredinol” yn y llyfryn polisi.

## Pryd a sut i dalu?

Gallwch dalu'ch premiwm i weinyddwr y cynllun. Gweler y manylion yn ein llyfryn polisi.

## Pryd bydd yr yswiriant yn dechrau ac yn gorffen?

O'r dyddiad dechrau (a ddangosir yn eich atodlen polisi). Bydd eich polisi yn parhau mewn grym ar ôl y dyddiad dechrau cyhyd â'ch bod yn parhau i dalu'ch premiwm – bydd rhai cynlluniau'n cael eu hadnewyddu'n flynyddol.

## Sut i ganslo'r contract?

Gallwch ganslo'ch polisi o fewn 14 diwrnod ar ôl ei brynu (neu ei adnewyddu lle bo'n briodol) neu o'r diwrnod rydych yn derbyn eich dogfennau polisi (neu'ch dogfennau adnewyddu lle bo'n briodol), p'un bynnag sydd hwyraf.

Os byddwch yn canslo cyn i'r yswiriant ddechrau, byddwn yn ad-dalu'r premiwm rydych wedi'i dalu.

Os byddwch yn canslo ar ôl i'ch yswiriant ddechrau, byddwn yn lleihau eich ad-daliad yn ôl yr amser y cawsoch eich yswirio. Gallwch ganslo'ch polisi ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yr yswiriant hefyd. I ganslo'ch polisi, cysylltwch â gweinyddwyr eich cynllun.

# Nodiadau

Un o arddulliau masnachu Thistle Insurance Services Limited yw Thistle Tenant Risks. Mae Thistle Insurance Services Limited wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol FRN 310419. Cofrestrwyd yn Lloegr dan Rif 00338645. Swyddfa Gofrestredig: Parc Busnes Rossington, West Carr Road, Retford, Swydd Nottingham, DN22 7SW. Mae Thistle Insurance Services Ltd yn rhan o'r Grŵp PIB.

Mae ein Polisi Preifatrwydd Diogelu Data ar-lein yn https://www.thistleinsurance.co.uk/Polisi-Preifatrwydd

Aviva Insurance Limited,
Cofrestrwyd yn yr Alban, Rhif
2116
Swyddfa Gofrestredig: Pitheavlis, Perth PH2 0NH.
Awdurdodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus.